Senedd Cymru
**Ymweld a Dysgu**

# Llywio Cymru:

## Deddfu ar gyfer Cymru



Ein cyfeiriad ar-lein:
**senedd.cymru**

**Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.**

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**© Hawlfraint Comisiwn Senedd Cymru 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Deddfu ar gyfer Cymru

**Mae Aelodau o'r Senedd yn trafod, yn gwirio ac yn gwneud deddfau sy'n llywio bywyd yng Nghymru.**

Mae deddfau yn rheolau sy'n gwneud yn siŵr eich bod chi'n cael eich parchu a'ch trin yn gyfartal. Maen nhw'n amddiffyn y rhai sydd mewn angen ac yn cynnig ffyrdd o ddatrys anghytundebau.

Mae Senedd y DU yn gwneud deddfau sy'n berthnasol i bob rhan o'r DU. Fodd bynnag, ers 2007, mae'r Senedd wedi gwneud deddfau mewn llawer o feysydd ar gyfer Cymru yn unig.

**Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy fynd i senedd.cymru/deddfwriaeth**

# Cynrychioli eich buddiannau chi

**Mae gan yr Aelodau sy'n eich cynrychioli chi yn y Senedd y pŵer i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar bawb yng Nghymru.**

Mae'r Senedd yn gwneud cyfreithiau ar gyfer Cymru. Mae cyfreithiau Cymru yn ystyried y sefyllfa yng Nghymru, a all fod yn wahanol i rannau eraill o'r DU.

Fodd bynnag, mae rhai meysydd yn dal i fod yn gyfrifoldeb i Senedd y DU a Llywodraeth y DU.

**Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy fynd i senedd.cymru/pwerau**

## Mae'r materion datganoledig yn cynnwys:

- Amaethyddiaeth a Bwyd
- Addysg
- Cymunedau a Thai
- Gwasanaethau Iechyd a Gofal
- Y Gymraeg
- Yr Amgylchedd

## Mae materion a gadwyd yn ôl yn cynnwys:

- Trafnidiaeth Awyr
- Ynni Niwclear
- Y Gofod
- Materion Tramor
- Amddiffyn
- Plismona

### Datganoli

Ystyr datganoli yw bod y pŵer i lunio deddfau a pholisïau ar gyfer Cymru wedi cael ei drosglwyddo o Lywodraeth y DU a Senedd y DU i Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru.

# O ble y mae cyfraith newydd yn dod?

**Mae pob cyfraith newydd yn dechrau fel syniad i newid sut y mae rhywbeth yn gweithio neu i wneud rhywbeth yn well.**

Rheolau yw cyfreithiau, sy'n helpu i sicrhau bod pawb yn cael triniaeth gyfartal a pharch. Maent yn cynnig amddiffyniad i'r rhai sydd ei angen ac yn darparu ffyrdd o ddatrys anghytundebau pan fyddant yn digwydd.

Pan fydd cyfraith yn dechrau ei thaith, fe'i gelwir yn Fil - mae'n fersiwn ddrafft o'r gyfraith.

## Gellir cyflwyno Bil gan:

**Llywodraeth Cymru**
Gall Llywodraeth Cymru awgrymu cyfreithiau newydd i gefnogi ei phenderfyniadau, gan newid y ffordd y mae rhai pethau yng Nghymru yn gweithio.

**Comisiwn y Senedd**
Gall Comisiwn y Senedd awgrymu ei syniadau ei hun ar gyfer cyfreithiau sy'n newid y ffordd y mae'r Senedd yn gwneud ei gwaith.



**Pwyllgor y Senedd**
Gall pwyllgor awgrymu cyfreithiau newydd ar y pynciau y mae'n edrych arnynt.



**Aelod o'r Senedd**
Gall Aelodau o'r Senedd, nad ydynt yn rhan o Lywodraeth Cymru, awgrymu cyfreithiau newydd drwy gyflwyno eu syniad ar gyfer balot.

### Beth yw Comisiwn y Senedd?

Comisiwn y Senedd yw'r enw a roddir ar gorff corfforaethol Senedd Cymru.

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod arall a enwebwyd gan y prif bleidiau gwleidyddol.

### Beth yw pwyllgor?

Pwyllgorau yw grwpiau bach o Aelodau sy'n edrych ar bynciau penodol.

# Sut mae Bil yn dod yn Ddeddf?

**Mae'n rhaid i Fil fynd drwy bedwar cyfnod yn y Senedd a chael Cydsyniad Brenhinol cyn dod yn Ddeddf y Senedd, sef cyfraith newydd i Gymru.**

1. Mae Aelodau o'r Senedd yn penderfynu a oes angen y gyfraith newydd ar Gymru.
2. Mae Aelodau o'r Senedd yn cwrdd mewn pwyllgor i edrych ar y Bil, ac i wneud newidiadau i'r geiriad.
3. Mae Aelodau o'r Senedd yn cwrdd yn y Cyfarfod i edrych ar y Bil, adolygu'r awgrymiadau a gwneud newidiadau terfynol i'w eiriad.
4. Mae Aelodau o'r Senedd yn pleidleisio yn y Cyfarfod Llawn i gytuno ar eiriad terfynol y Bil.

Mae'r Brenin yn rhoi Cydsyniad Brenhinol i'r Bil. Mae hwn yn gytundeb ffurfiol y gall y Bil ddod yn Ddeddf y Senedd, yn gyfraith newydd i Gymru.

**Beth yw Bil?**

Deddf ddrafft yw Bil.

Wedi i Fil gael ei drafod a'i basio gan y Senedd, a chael Cydsyniad Brenhinol gan y Brenin, 'Deddf Senedd Cymru' fydd wedi hynny.

# Taith Bil: Cyfnod 1

## Mae Aelodau o'r Senedd yn penderfynu a oes angen y gyfraith newydd ar Gymru.

Mae'r Bil yn dechrau ei daith gyda phwyllgor. Mae'n bosibl y bydd mwy nag un pwyllgor yn gweithio ar y Bil cyn iddo gyrraedd y Cyfarfod Llawn.


Mae'r pwyllgor sy'n edrych ar y Bil yn cwrdd ag arbenigwyr pwnc, sy'n helpu i lunio'r Bil. Efallai y bydd y pwyllgor yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, lle gallech roi eich barn.

Mae Cyfnod 1 yn caniatáu i'r pwyllgor gasglu tystiolaeth gan bawb y mae'n siarad â nhw, ac mae’n cynnwys y dystiolaeth mewn adroddiad. Bydd yr adroddiad hwn yn dweud a yw'r pwyllgor yn cytuno â phrif nod y Bil. Gallai hefyd awgrymu newidiadau i eiriad y Bil.

Yn olaf, mae Aelodau o'r Senedd yn cwrdd yn y Cyfarfod Llawn i drafod yr holl adroddiadau a ysgrifennwyd am y Bil. Maent yn pleidleisio i benderfynu a oes angen y gyfraith newydd hon ar Gymru. Os bydd mwyafrif o’r Aelodau yn pleidleisio 'na', mae'r Bil yn dod i ben yma.

### Cyfnod 1


Mae Aelodau o'r Senedd yn edrych ar y pethau sylfaenol: maent yn cwrdd ac yn penderfynu, mewn egwyddor, a oes angen y gyfraith newydd hon ar Gymru.



Mae un neu fwy o bwyllgorau yn edrych ar y Bil ac yn ysgrifennu adroddiadau Cyfnod 1.



Mae Aelodau o'r Senedd yn cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ar bob adroddiad sydd wedi'u hysgrifennu am y Bil.



Mae Aelodau o'r Senedd yn pleidleisio yn y Cyfarfod Llawn i benderfynu a oes angen y gyfraith newydd ar Gymru.

**Beth yw pwyllgor?**

Pwyllgorau yw grwpiau bach o Aelodau sy’n edrych ar bynciau penodol.

**Beth yw Cyfarfod Llawn?**

Y Cyfarfod Llawn yw’r cyfarfod o’r holl Aelodau o’r Senedd yn y Siambr, y siambr drafod.

# Taith Bil: Cyfnod 2

## Mae Aelodau o'r Senedd yn cwrdd mewn pwyllgor. Maent yn edrych ar y Bil, ac yn gwneud newidiadau i'r geiriad.

Gall pob Aelod adolygu'r Bil, ac awgrymu newidiadau. Efallai eu bod yn meddwl y byddai'n well pe bai'n gwneud rhywbeth arall hefyd, neu ei fod yn gwneud gormod a bod angen bod yn fwy penodol.

**Mae pob newid a gaiff ei awgrymu yn welliant.**

Mae'r pwyllgor sy'n gweithio ar y Bil yn edrych ar yr holl welliannau a awgrymwyd gan Aelodau o'r Senedd. Maent yn cwrdd ac yn trafod beth fyddai'r gwelliannau yn ei wneud i'r Bil, ac yn pleidleisio i benderfynu a ddylid eu cynnwys. Dim ond os yw mwyafrif aelodau'r pwyllgor yn pleidleisio y dylai gael ei gynnwys y bydd gwelliant yn cael ei gynnwys.

Mae'r pwyllgor yn ysgrifennu pob awgrym y mae'n cytuno ag ef yn y Bil er mwyn llunio fersiwn ddiwygiedig o'r Bil. Ar ôl i'r pwyllgor gynnal dadl a phleidleisio ar y gwelliant terfynol, mae'r Bil yn parhau ar ei daith.

### Cyfnod 2


Mae Aelodau o'r Senedd yn llunio'r Bil: mae grŵp bach o Aelodau yn cwrdd fel pwyllgor ac yn edrych ar awgrymiadau i ddiwygio'r Bil.



Gall pob Aelod o'r Senedd awgrymu gwelliant i'r Bil.



Mae'r pwyllgor sy'n gweithio ar y Bil yn edrych ar yr hyn y bydd pob gwelliant yn ei wneud i'r Bil.



Mae aelodau'r pwyllgor yn pleidleisio ar ba welliannau y dylid eu cynnwys yn y Bil.

**Beth yw gwelliant?**

Cynigion i ychwanegu neu ddileu geiriau neu newid geiriad y Bil yw gwelliannau.

Bydd y gwelliannau hyn yn newid yr hyn y gall y ddeddf newydd ei wneud.

# Taith Bil: Cyfnod 3

**Mae Aelodau o'r Senedd yn cwrdd yn y Cyfarfod Llawn. Maent yn edrych ar y Bil, yn adolygu awgrymiadau ac yn gwneud newidiadau terfynol i'w eiriad.**

Gall pob Aelod o’r Senedd adolygu'r Bil, ac awgrymu gwelliannau. Yn ystod y Cyfarfod Llawn, gall pob Aelod a awgrymodd welliant esbonio ei welliant, a rhoi rhesymau dros ei awgrymu.

**Mae'n bwysig bod pob Aelod sydd am siarad yn y Cyfarfod Llawn yn gallu dweud ei ddweud.**

Âr ôl i bob Aelod yn y Cyfarfod Llawn drafod a phleidleisio ar y gwelliant terfynol, mae geiriad y Bil wedi'i gwblhau. Mae gan y Bil ei eiriad terfynol ac mae'n barod i symud ymlaen i'w gyfnod olaf yn y Senedd.

## Cyfnod 3

Mae Aelodau o'r Senedd yn mireinio'r Bil: mae'r Bil yn dychwelyd i'r Siambr i Aelodau o'r Senedd wneud newidiadau terfynol.



Gall pob Aelod o’r Senedd awgrymu gwelliant i’w drafod a chynnal dadl arno yn y Cyfarfod Llawn.



Gall Aelodau a gynigiodd welliant esbonio pam eu bod yn ei awgrymu.



Mae Aelodau o'r Senedd yn pleidleisio ar ba welliannau y dylid eu cynnwys yn y Bil terfynol.

### Pethau ychwanegol dewisol

Mae opsiwn i gynnal dadleuon ar ragor o welliannau i’r Bil a phleidleisio arnynt.

Gelwir y cyfnodau ychwanegol hyn yn Gyfnod 3 Pellach, Cyfnod Adrodd a Chyfnod Adrodd Pellach.

Ond nid yw'r rhan fwyaf o Filiau yn mynd drwy'r cyfnodau hyn.

# Taith Bil: Cyfnod 4

## Mae Aelodau o'r Senedd yn pleidleisio yn y Cyfarfod Llawn i gytuno ar eiriad terfynol y Bil.

Ar ôl i'r Bil gyrraedd Cyfnod 4, mae ei eiriad yn derfynol. Ni all Aelodau o'r Senedd ddiwygio'r Bil ymhellach.

Yn ystod dadl Cyfnod 4, mae Aelodau yn edrych ar destun terfynol y Bil, ac yn penderfynu a ddylai ddod yn gyfraith newydd. Ar ôl y ddadl, maent yn pleidleisio - 'a ddylai'r Bil hwn ddod yn Ddeddf, yn gyfraith newydd i Gymru?

Os bydd mwyafrif yr Aelodau'n pleidleisio yn erbyn pasio'r Bil, mae'r Bil yn methu. Ni all unrhyw beth pellach ddigwydd gyda Bil pan fydd wedi methu.


Os bydd mwyafrif yr Aelodau'n pleidleisio o blaid pasio'r Bil, mae wedi llwyddo ar ei hynt drwy'r Senedd. Gall fynd ymlaen i'w gam terfynol i ddod yn gyfraith newydd – ar yr amod nad oes her gyfreithiol iddo.

### Cyfnod 4

Mae Aelodau o'r Senedd yn pleidleisio'n derfynol ar y Bil: mae Bil llwyddiannus yn cwblhau ei daith drwy'r Senedd.



Mae Aelodau o'r Senedd yn trafod geiriad terfynol y Bil.



Cynhelir pleidlais derfynol i gytuno ar eiriad terfynol y Bil.



Os na fydd y Bil yn pasio'r cyfnod hwn, mae'n methu.

### Pasio deddf Newydd

Os bydd mwyafrif yr Aelodau yn pleidleisio o blaid pasio'r Bil, ac nad oes heriau cyfreithiol, gall ddod yn ddeddf newydd yng Nghymru.

# Taith Bil: Cydsyniad Brenhinol


**Mae'r Brenin yn rhoi Cydsyniad Brenhinol i'r Bil. Mae hwn yn gytundeb ffurfiol y gall y Bil ddod yn Ddeddf y Senedd Cymru.**

Er mwyn cyrraedd y cyfnod hwn, mae Aelodau o'r Senedd wedi ysgrifennu'r Bil, wedi craffu arno, ei ddiwygio ac wedi pleidleisio arno. Maent wedi siarad ag arbenigwyr ar y pwnc, ac efallai eich bod chi wedi cael dweud eich dweud, drwy ymateb i ymgynghoriad pwyllgor.

Y Brenin sy'n rhoi Cydsyniad Brenhinol i bob Bil sy'n llwyddo i fynd drwy'r pedwar cyfnod yn y Senedd. Cytundeb ffurfiol y gall y Bil ddod yn Ddeddf y Senedd yw Cydsyniad Brenhinol.

## Cydsyniad Brenhinol

y cam olaf ar y daith, pan fydd y Bil yn dod yn Ddeddf y Senedd Cymru – cyfraith newydd i Gymru.



Mae'r Brenin yn rhoi Cydsyniad Brenhinol i'r Bil.



Mae'r Bil yn dod yn Ddeddf y Senedd Cymru.

**A wyddost ti?**

Rhaid i bob deddfwriaeth sylfaenol a gaiff ei gwneud gan bob Senedd a Chynulliad yn y DU gael Cydsyniad Brenhinol.

# Cysylltu â ni

## A oes gennych gwestiwn am y Senedd?

Mae yna lawer o ffyrdd y gallwch chi gysylltu â ni i ddarganfod rhagor am sut mae'r Senedd yn gweithio a sut y gallwch ddweud eich dweud.

Cysylltwch â ni drwy ddefnyddio'r manylion isod, neu dewch i'n gweld a siarad â ni ym Mae Caerdydd.


**www.senedd.cymru**

**cysylltu@senedd.cymru**

**0300 200 6565**

**@SeneddCymru**

**SeneddCymru**

**SeneddCymru**

**Y Senedd, Bae Caerdydd, CF99 1SN**